- 2.2.2 Mae gofyniad sylfaenol y bydd yn ofynnol i gyflogeion amser llawn weithio o leiaf 40 awr yr wythnos ar gyfartaledd (gan gynnwys amseroedd bwyd). Bydd patrymau gwaith sifft yn cael eu cynllunio ar y sail hon.
- 2.2.3 Er mwyn cwrdd â galwadau'r rhaglenni byw hynny a ddarlledir yn ddyddiol* drwy gydol y flwyddyn lle mae'n rhaid i staff ddarparu gwasanaeth dros gyfnodau hir sydd fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio, ar sail hyblyg, gyfnodau dyletswydd penodol o 10 awr neu ragor, gellir pennu llai na 20 o ddiwrnodau dyletswydd sylfaenol ym mhob cyfnod cyfrifyddu o 4 wythnos drwy gytuno'n lleol. Os pennir nifer o ddiwrnodau dyletswydd sylfaenol sy'n llai na 20 o fewn cyfnod cyfrifyddu yn y cyd-destun hwn, fe adlewyrchir hyn wrth gymhwyso cymal 2.6.4 ond caiff ei hepgor o'r ddarpariaeth yng nghymal 2.6.3.
*Yn y cyd-destun hwn mae dyddiol yn golygu 5 neu ragor o weithiau'r wythnos.

- 2.2.4 Bydd nifer a hyd y diwrnodau a weithir gan staff rhan-amser yn cael eu trefnu neu eu cytuno â'r aelod staff.

2.3 Hyd Diwrnodau Heb Ddyletswydd

- 2.3.1 Fel arfer bydd hyd diwrnodau heb ddyletswydd yn unol â galwadau gweithredol neu alwadau'r gwasanaeth, ac eithrio staff sy'n dilyn patrwm gwaith sifft lle bydd hyd y diwrnodau heb ddyletswydd yn cael ei bennu yn ôl trefn y rota y cytunwyd arni.
- 2.3.2 Yn achos yr holl staff rhan-amser, bydd y diwrnodau i ffwrdd rhwng dyletswyddau'n cael eu trefnu â'r aelod staff. Un o effeithiau cyflogaeth ran-amser yw mai gwirfoddol fydd yr holl waith ar ddiwrnodau ac oriau y tu allan i'r rheini sydd mewn patrwm gwaith a gytunwyd, oni chytunir fel arall.
- 2.3.3 Os yw aelod staff rhan-amser wedi cytuno i weithio diwrnodau hyblyg, mae'n bosibl y bydd angen cynnwys darpariaeth ar gyfer diwrnodau i ffwrdd a ddiogelir yn y cytundeb yn unol â Chymal 6.

2.4 Credydu Diwrnodau

Ym mhob cyfnod o 4 wythnos neu gyfnod cyfrifyddu arall, bydd cyflogeion yn cael credyd o un diwrnod (neu unedau hanner diwrnod ar gyfer staff rhan-amser os yw hyn yn gymwysadwy) am:

- 2.4.1 Pob diwrnod ar ddyletswydd a weithir (y diffiniad o ddiwrnod yw unrhyw oriau gwaith mewn cyfnod o 24 awr).

- 2.4.2 Pob diwrnod o wyliau, rhyddhad o ddyletswydd, absenoldeb oherwydd salwch ar ddiwrnod gwaith a oedd wedi'i amserlennu cynt neu absenoldeb arall a awdurdodwyd. Mewn wythnosau lle nad oes amserlen, rhoddir credyd o 5 niwrnod am bob wythnos o absenoldeb oherwydd salwch o fewn diwrnodau dyletswydd sylfaenol.
- 2.4.3 Pob diwrnod i ffwrdd y bu'n rhaid ei dreulio oddi ar y safle.

2.5 Diwrnodau Rhan-amser

- 2.5.1 Cyflogeion rhan-amser yw'r rheini a gyflogwyd i weithio am lai nag 20 niwrnod ym mhob 4 wythnos, ac y mae eu tâl sylfaenol felly'n llai na'r gyfradd amser llawn.
- 2.5.2 Bydd nifer a hyd y diwrnodau a weithir gan gyflogeion rhan-amser yn cael eu cytuno â'r cyflogai a bydd yr holl hawliau ar yr un cyfartaledd yn unol â hynny.
- 2.5.3 Os gweithir diwrnodau llawn*, telir cyflog cymesur i gyflogeion a gyfrifir fel a ganlyn:

Cyflog Blynyddol Llawn Amser x diwrnodau a weithir ym mhob 4 wythnos

20

*(Diwrnod llawn = 7 awr heb gynnwys amser bwyd)

- 2.5.4 Os gweithir rhannau o ddiwrnodau neu ddiwrnodau hir, cyfrifir y cyflog fel a ganlyn:

Cyflog Blynyddol Llawn Amser x oriau a weithir ym mhob 4 wythnos

(heb gynnwys amseroedd bwyd)

140

Bydd y Cyflog Blynyddol amser llawn yn y cyfrifiad uchod yn cynnwys Pwysoliad Llundain os yw'n gymwysadwy.

2.6 Diwrnodau Ychwanegol

- 2.6.1 Gall fod yn ofynnol i gyflogeion weithio diwrnodau ychwanegol ar ben eu diwrnodau gwaith sylfaenol mewn cyfnod cyfrifyddu.
- 2.6.2 Ar ddiwedd pob cyfnod cyfrifyddu, bydd yr holl ddiwrnodau a gredydwyd yn ystod y cyfnod yn cael eu cyfansymio.
- 2.6.3 Os bydd staff nad ydynt yn dilyn patrwm gwaith sifft cylchdro neu sefydlog, nac yn dod o dan baragraff 2.2.3 uchod, wedi cael eu hawdurdodi i weithio pedwar diwrnod o 12 awr neu fwy ynghyd ag o leiaf 4 awr ar bum diwrnod o fewn Wythnos Rhaglen, byddant yn cael eu credydu ag un diwrnod ychwanegol, ar ben y pum niwrnod hyn, tuag at y cyfanswm yn y cyfnod cyfrifyddu.
- 2.6.4 Os bydd cyfanswm y diwrnodau gwaith a geir o ganlyniad yn fwy na nifer y diwrnodau gwaith sylfaenol ar gyfer y cyfnod, bydd y diwrnodau ychwanegol yn cael eu dwyn ymlaen a gellir eu rhoi'n wyliau digolledu ar unrhyw adeg dros yr 8 wythnos nesaf (neu dros gyfnod hirach os cytunir ar hynny'n lleol) ar ôl y cyfnod cyfrifyddu pan enillwyd nhw.
- 2.6.5 Os bydd unrhyw ddiwrnodau ychwanegol heb eu cymryd ar ddiwedd y cyfnod o 8 wythnos (neu gyfnod hirach os cytunwyd ar hynny'n lleol), neu os bydd y cyflogai'n newid adran, rhoddir tâl yn eu lle ar y gyfradd ddyddiol berthnasol**. Y gyfradd berthnasol fydd yr un sy'n gymwys ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu pan enillwyd y diwrnod ychwanegol.

***Gellir gweld y cyfraddau cyfredol ar Gateway, mewnwyd y BBC.*

- 2.6.6 Lle mae cyflogeion rhan-amser wedi gweithio diwrnodau ychwanegol, os bydd cyfanswm y diwrnodau a weithiwyd ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu'n 20 niwrnod gwaith neu lai, telir am y diwrnodau ychwanegol ar y gyfradd sylfaenol ar yr un cyfartaledd. Os bydd cyfanswm y diwrnodau'n fwy nag 20 niwrnod, bydd y darpariaethau a ddisgrifiwyd uchod yn gymwys.

3. Oriau Gwaith: Amodau Gwasanaeth Oriau

3.1 Cyfnod Cyfrifyddu

- 3.1.1 Cyfrifir yr holl oriau dros gyfnod cyfrifyddu a fydd o leiaf 4 wythnos o hyd.
- 3.1.2 Gellir negodi neu gytuno'n lleol ar gyfnod cyfrifyddu o fwy na 4 wythnos. Lle mae hyn yn gymwys, bydd oriau a diwrnodau'n cael eu cynyddu ar yr un cyfartaledd wrth eu cyfrifyddu.

3.2 Oriau Sylfaenol

- 3.2.1 Gall fod yn ofynnol i gyflogeion weithio hyd at 160 o oriau dyletswydd sylfaenol ym mhob cyfnod cyfrifyddu o 4 wythnos. Bydd amseroedd bwyd a awdurdodwyd yn cael eu cyfrif yn oriau gwaith.
- 3.2.2 Gweithir yr oriau sylfaenol hyn ar ddim mwy nag 20 o'r 28 niwrnod mewn cyfnod cyfrifyddu o 4 wythnos neu nifer y diwrnodau dyletswydd sylfaenol a bennir yn ôl trefn patrymau gwaith sifft a gytunwyd yn lleol.
- 3.2.3 Bydd pob cyfnod o ddyletswydd yn barhaus oni chytunir fel arall yn lleol.

3.3 Hyd Diwrnodau Heb Ddyletswydd

- 3.3.1 Yn achos yr holl gyflogeion heblaw'r rheini sy'n dilyn patrwm gwaith sifft, lle rhoddir diwrnodau heb ddyletswydd, bydd wyth o'r diwrnodau hyn mewn cyfnod cyfrifyddu o 4 wythnos yn cael eu diffinio fel a ganlyn:
- (iii) Un diwrnod heb ddyletswydd yw cyfnod o 34 awr o leiaf rhwng cyfnodau ar ddyletswydd.
 - (iv) Os rhoddir mwy nag un diwrnod heb ddyletswydd yn olynol, bydd y cyfnod o 34 awr am y diwrnod cyntaf yn cael ei ymestyn o leiaf 24 awr am bob diwrnod heb ddyletswydd ar ôl hynny.
- 3.3.2 Yn achos cyflogeion sy'n dilyn patrwm gwaith sifft, bydd hyd y diwrnodau heb ddyletswydd yn cael ei bennu yn ôl y rota y cytunwyd arni.
- 3.3.3 Yn achos yr holl staff rhan-amser, bydd hyd y cyfnodau, a diwrnodau i ffwrdd, rhwng dyletswyddau yn cael ei drefnu â'r aelod staff. Un o effeithiau cyflogaeth ran-amser yw mai gwirfoddol fydd yr holl waith ar ddiwrnodau ac oriau y tu allan i'r rheini sydd mewn patrwm gwaith a gytunwyd, oni chytunir fel arall.
- 3.3.4 Os yw aelod staff rhan-amser wedi cytuno i weithio diwrnodau neu oriau hyblyg, mae'n bosibl y bydd angen cynnwys darpariaeth ar gyfer diwrnodau i ffwrdd a ddiogelir yn y cytundeb yn unol â Chymal 6.

3.4 Credydu Oriau

Ym mhob cyfnod cyfrifyddu o 4 wythnos neu gyfnod cyfrifyddu arall, bydd staff yn cael eu credydu â'r canlynol i ddibenion tâl:

- 3.4.1 Yr holl oriau neu rannau o oriau ar ddyletswydd (wedi'u talgrynnu i fyny i'r 15 munud nesaf ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu) gan gynnwys amseroedd bwyd, yn amodol ar o leiaf 4 awr am bob cyfnod o ddyletswydd (neu gyfnod hirach os cytunwyd ar hynny'n lleol ar ôl ystyried anghenion gweithredol). Os bydd unrhyw oriau o ddyletswydd yn cael eu canslo ar ôl 00:01 ar y diwrnod dyletswydd, bydd yr oriau a amserlennwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw'n cael eu credydu, ond ni fyddant yn cyfrif ar gyfer unrhyw gyfrifiad o dan gymal 3.7 isod.
- 3.4.2 8 awr (7 awr ar gyfer cyflogeion rhan-amser), neu oriau a restrwyd ar gyfer cyflogeion sy'n dilyn patrwm gwaith sifft, am bob diwrnod o wyliau, rhyddhad o ddyletswydd, salwch neu ddiwrnod dyletswydd a amserlennwyd cyn hynny neu absenoldeb arall o ddyletswydd a awdurdodwyd. Mewn wythnosau lle nad oes amserlen, bydd 40 awr yn cael eu credydu am bob wythnos gyfan o absenoldeb oherwydd salwch.
- 3.4.3 8 awr am unrhyw ddiwrnod i ffwrdd y bu'n rhaid ei dreulio oddi ar y safle.
- 3.4.4 Lle mae staff yn gweithio oddi ar y safle:
- (iii) Yr holl oriau a dreuliwyd ar deithio ar ddyletswydd a awdurdodwyd;
 - (iv) Yr holl oriau y mae eu hamser teithio dyddiol i'r safle gweithio dros dro yn fwy na'u horiau teithio arferol rhwng y cartref a'r safle.

3.5 Oriau a Chyflog Rhan-amser

- 3.5.1 Cyflogeion rhan-amser yw'r rheini a gyflogwyd i weithio am lai na 140 awr (heb gynnwys amseroedd bwyd) ym mhob cyfnod o 4 wythnos a'r rheini y mae eu tâl sefydlog felly'n llai na'r gyfradd amser llawn.
- 3.5.2 Dylid talu cyflog blynyddol cymesur i staff rhan-amser wedi'i gyfrifo fel a ganlyn:

$$\frac{\text{Cyflog Blynyddol Amser Llawn* x yr oriau a weithiwyd ym mhob 4 wythnos}}{\text{(heb gynnwys amseroedd bwyd)}} \\ 140$$

- 3.5.3 Cyfrifir y gyfradd sylfaenol yr awr fel a ganlyn:

$$\frac{\text{Cyflog Blynyddol Amser Llawn*}}{1820 (= 52 \times 35)}$$

** Bydd y Cyflog Blynyddol amser llawn yn y cyfrifiadau uchod yn cynnwys Pwysoliad Llundain os yw'n briodol.*

3.6 Dyletswydd Ychwanegol – Oriau Amser Llawn

- 3.6.1 Gall fod yn ofynnol i gyflogeion weithio dyletswydd ychwanegol ar ben eu horiau sylfaenol neu oriau a restrwyd un ai'n ychwanegol at eu horiau dyletswydd sylfaenol (wedi'u hamserlennu neu heb eu hamserlennu) neu fel cyfnod dyletswydd ar wahân.
- 3.6.2 Cyfrifir dyletswydd ychwanegol fel a ganlyn:

(iii) Gwneir cyfanswm o'r holl oriau a gredydwyd o dan baragraff 3.4 mewn perthynas â'r 20 niwrnod cyntaf sy'n ennill credydau mewn cyfnod cyfrifyddu o 4 wythnos. Os bydd

y cyfanswm yn fwy na'r oriau dyletswydd sylfaenol, bydd yr oriau ychwanegol yn cael eu cyfrif yn ddyletswydd ychwanegol.

(iv) Os cofnodwyd 20 o ddiwrnodau â chredydau am oriau, bydd unrhyw oriau a gredydir ar ddiwrnodau ychwanegol yn cael eu cyfrif yn ddyletswydd ychwanegol.

3.6.3 Lle ceir cyfnodau cyfrifyddu hirach, bydd yr 20 niwrnod cyntaf yn cael eu hymestyn ar yr un cyfartaledd. Gwneir cyfanswm o'r oriau o ddyletswydd ychwanegol o dan 3.6.2 uchod, adir yr holl rannau o oriau o dan (i) a (ii) a bydd y cyfanswm a geir yn gael ei dalgrynnu i fyny i'r 15 munud nesaf.

3.6.4 Am bob awr o ddyletswydd ychwanegol, gall cyflogeion ddewis y naill neu'r llall o'r canlynol:

(i) Tâl ar 1.5T (T= y cyflog blynyddol ar y pryd heb gynnwys pwysoliad Llundain, wedi'i rannu â 1820, h.y. 52x35)

(ii) Tâl ar 0.5T, ynghyd â gwyliau digolledu ar 1T. Bydd gwyliau digolledu'n cael eu troi'n dâl ar 1T os na chymerir nhw o fewn tri mis ar ôl diwedd y cyfnod cyfrifyddu pan enillwyd nhw, neu pan fydd y cyflogai'n newid adran os yw hynny'n gynharach.

3.7 Cyfraddau Premiwm – Oriau Amser Llawn

Yn ogystal â chredydu oriau o dan gymal 3.4 uchod, rhoddir tâl yn yr amgylchiadau canlynol:

3.7.1 Heblaw wrth ddilyn trefn rota, os bydd cyfnod o ddyletswydd barhaus yn gorffen 12¼ awr neu fwy ar ôl ei ddechrau, bydd y 15 munud cyntaf ar ôl 12 awr, ynghyd â'r holl gyfnodau ar ôl hynny wedi'u talgrynnu i fyny i'r 15 munud nesaf, yn gymwys i'w talu ar gyfradd o 1T yr awr.

3.7.2 Yn achos cyflogeion sy'n dilyn patrwm gwaith sifft cylchdro neu sefydlog, bydd oriau ar ôl y 12 awr yn gymwys am dâl yn yr un modd ar yr amod eu bod hefyd yn golygu bod cyflogeion yn gweithio am fwy na nifer yr oriau a restrwyd yn wreiddiol ar gyfer y diwrnod hwnnw. (Er enghraifft, byddai cyflogeion sydd wedi'u rhestru am 13 awr sy'n gweithio 13½ awr yn gymwys i gael tâl ychwanegol am 30 munud – nid tâl chwanegol am 90 munud.)

3.7.3 Os bydd yr egwyl rhwng amser gorffen gwirioneddol un cyfnod o ddyletswydd ac amser dechrau gwirioneddol yr un nesaf yn llai na 10 awr, gwneir tâl ychwanegol o 1T am bob awr y mae'r egwyl yn llai na 10 awr (gan dalgrynnu rhan o awr i fyny i'r 15 munud nesaf ar bob achlysur a'i thalu ar yr un cyfartaledd), ac eithrio, yn achos cyflogeion sy'n dilyn patrwm gwaith sifft cylchdro neu sefydlog, lle mae'r egwyl o lai na 10 awr wedi'i chynnwys yn yr oriau a restrwyd yn wreiddiol.

3.8 Dyletswydd Ychwanegol – Oriau Rhan-amser

Ar ddiwedd y cyfnod cyfrifyddu, bydd yr holl oriau a gredydwyd o dan gymal 3.4 uchod yn cael eu talu fel a ganlyn:

3.8.1 Mewn perthynas â'r 20 niwrnod cyntaf sy'n ennill credydau, telir yr holl oriau ar y gyfradd sylfaenol yr awr am y 140 awr gyntaf ac ar 1.5T ar ôl hynny (T=y gyfradd sylfaenol yr awr heb gynnwys Pwysoliad Llundain).

3.9.1 Mewn perthynas â diwrnodau a gredydwyd ar ôl yr 20 niwrnod cyntaf a gredydwyd, telir yr holl oriau ar 1.5T.

3.9.2 Lle ceir cyfnodau cyfrifyddu hirach, bydd y 140 awr a'r 20 niwrnod yn cael eu hymestyn ar yr un cyfartaledd.

3.10 Gwyliau Cyhoeddus a Gwyliau Corfforaeth

3.9.1 Yn ogystal â'r hawl i wyliau blynyddol, bydd gan bob cyflogai hawl i gymryd 8 Gŵyl Gyhoeddus statudol ac 1 Diwrnod Corfforaeth bob blwyddyn (bydd hawl gan gyflogeion rhan-amser ar yr un cyfartaledd), a elwir yn PHL.

3.9.2 Cyfrifir hawl cyflogeion rhan-amser i PHL fel a ganlyn:

$$\frac{\text{Oriau dyletswydd wythnosol cyfartalog (heb gynnwys amseroedd bwyd)} \times 9 = x \text{ diwrnod}}{35}$$

Ile caiff x ei dalgrynnu i fyny i'r hanner diwrnod agosaf.

3.9.3 Y bwriad yw y dylai cyflogeion gael eu rhyddhau, os nad oes eu hangen ar ddyletswydd, i gymryd eu PHL ar ddyddiadau'r Ŵyl Gyhoeddus neu Ŵyl Gorfforaeth.

3.9.4 Lle mae cyflogeion yn gweithio, neu lle maent wedi trefnu i gymryd gwyliau blynyddol neu wyliau digolledu ar Ŵyl Gyhoeddus neu Ŵyl Gorfforaeth; neu os bydd yr ŵyl ar yr un diwrnod ag y mae cyflogeion yn cymryd diwrnod heb ddyletswydd ar rota, bydd ganddynt hawl i wneud cais i gymryd y PHL perthnasol ar ddyddiad arall.

3.9.5 Lle mae cyflogeion yn gweithio, neu'n cael eu rhyddhau o ddyletswydd, neu'n cymryd gwyliau blynyddol neu ddigolledu ar Ŵyl Gyhoeddus neu Ŵyl Gorfforaeth, neu os ydynt yn cymryd PHL ar ddyddiad arall, byddant yn cael eu credydu ag un diwrnod.

3.9.6 Yn ogystal â hyn, os bydd cyflogeion yn gweithio ar y diwrnodau hyn, gwneir un tâl ar gyfradd benodedig am bob diwrnod am Ddydd Nadolig a/neu Ŵyl San Steffan (Dydd Nadolig neu Ddydd Calan yn yr Alban), neu unrhyw ddau ddiwrnod arall a gytunir yn lleol. Mae'r cyfraddau am y diwrnodau hyn ar gael ar Gateway.

3.9.7 Os bydd cyflogeion yn dechrau eu cyflogaeth ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn, byddant yn cael PHL am bob Gŵyl Gyhoeddus a Gŵyl Gorfforaeth sy'n weddill yn y flwyddyn.

4. Canllawiau Amserlennu

4.1 Rheoliadau Oriau Gwaith

Mae'r BBC wedi ymrwmo i ymarfer da ar amserlennu a bydd bob amser yn ceisio sefydlu patrymau gwaith sy'n unol â gofynion y *Rheoliadau Oriau Gwaith*. Er bod y rhan fwyaf o bobl yn y BBC yn gweithio o fewn y cyfyngiadau oriau gwaith, oherwydd natur newyddiaduraeth, y broses o wneud rhaglenni a darlledu mae angen mwy o hyblygrwydd ynghylch rhai gweithgareddau gwaith ac ar brydiau gellir disgwyl i rai cyflogeion weithio oriau hir dros gyfnodau cryno. Mae rhagor o fanylion ar gael am yr egwyddorion sydd i'w cymhwyso gan reolwyr, cyflogeion ac unrhyw unigolion eraill sy'n gyfrifol am amserlennu neu sydd mewn lle i ddylanwadu ar batrymau gwaith pobl eraill yn *Guide to the Working Time Regulations* ar Gateway.

4.2 Amseroedd Bwyd

Oni bai fod amgylchiadau eithriadol yn eu hatal, neu fod cytundeb i amrywio'r darpariaethau hyn yn lleol, bydd amseroedd bwyd yn cael eu hamserlennu neu eu caniatáu ar y sail:

4.2.1 Na fydd disgwyl i staff weithio'n ddi-dor am fwy na chwe awr heb gael amser a chyfle i gael pryd o fwyd neu luniaeth.

- 4.2.2 Y caniateir un amser bwyd fel arfer yn ystod pob cyfnod dyletswydd o fwy na chwe awr a dau amser bwyd yn ystod cyfnod dyletswydd o ddeuddeg awr neu fwy.

Y norm ar gyfer un amser bwyd a amserlennir yn ystod cyfnod dyletswydd fydd un awr; os amserlennir dau amser bwyd, 90 munud fydd y norm.

4.3 Canllawiau ar gyfer Newidiadau mewn Amserlenni

- 4.3.1 Mae amserlenni dyletswydd (neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt) mewn meysydd lle maent yn gymwys i gael eu rhoddi mor gynnar ymlaen llaw ag sy'n ymarferol. Mae'n anorfod y bydd newidiadau ar fyr rybudd mewn rhai meysydd, ond dim ond pan fydd eu hangen ar gyfer gweithrediadau y byddant yn cael eu gwneud.

- 4.3.2 Os bydd angen newid mewn canllawiau amserlenni sefydledig sy'n mynd ymhellach na'r darpariaethau yn *Guide to the Working Time Regulations*, bydd y newid yn cael ei drafod drwy'r trefniadau ymgynghori presennol.

- 4.3.3 Er mwyn sicrhau bod ysbryd a bwriad y Rheoliadau Oriau Gwaith yn cael eu hystyried yn llawn wrth gynllunio rhaglenni, bydd pob Is-adran yn sicrhau:

(v) Bod y rheini sy'n ceisio gosod amserlenni sy'n mynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau yn cyfeirio'r mater at Uwch-Reolwr i gael cytundeb a chymeradwyaeth. Bydd yr Uwch-Reolwr (na ddylai fod â chysylltiad uniongyrchol â'r rheini sy'n paratoi'r amserlen) yn sicrhau bod yr amserlenni'n rhesymol ym mhob amgylchiad ac wedi'u seilio ar anghenion gweithredol dilys.

(vi) Os caiff amserlenni eu llunio ymlaen llaw sy'n mynd y tu hwnt i'r cyfyngiadau, y bydd cyflogaion yn cael cyfle i drafod yr amserlenni y gofynnir iddynt eu dilyn fel y gellir egluro'n llawn y rhesymau dros y patrymau gwaith a rhoi cyfle i'r cyflogaion godi materion sy'n peri pryder.

(vii) Y bydd cyflogaion yn cael eu hysbysu'n fuan am newidiadau sylweddol mewn amserlenni.

(viii) Trefniadau ar gyfer monitro amserlenni a/neu batrymau gwaith gwirioneddol ac yn sefydlu fframwaith ar gyfer adolygu gyda'r undebau llafur, os nad oes trefniadau wedi'u gwneud eisoes.

5. Hyblygrwydd a Phatrymau Gwaith Anrhwngwladwy

- 5.1 Bydd cyflogaion yn cael eu hysbysu gan eu rheolwr am eu horiau gwaith arferol a'u patrymau gwaith a bydd patrwm gwaith gwirioneddol y cyflogai'n gyson â'r trefniadau lleol safonol, a fydd yn agored i'w newid o bryd i'w gilydd.

- 5.2 Gall fod yn ofynnol i gyflogaion weithio drwy ddilyn rota i greu neu gynnal cynnyrch y BBC ac mae'n bosibl y bydd rhai patrymau gwaith yn galw am weithio'n gynnar, yn hwyr, yn y nos ac ar benwythnosau neu wyliau banc. Mae'n bosibl y bydd rhai patrymau gwaith yn cynnwys newidiadau ar fyr rybudd mewn diwrnodau neu oriau gwaith. Gall fod yn ofynnol i bob cyflogai weithio ar sail patrymau o'r fath o bryd i'w gilydd wrth ddarparu neu gynnal cynnwys y BBC.

- 5.3

Pan fo natur y rôl yn gofyn am gryn hyblygrwydd a bydd y dyddiau a'r oriau y bydd eu hangen i weithio, yn bennaf, yn amrywio yn ôl anghenion y swydd a / neu byddant yn destun newidiadau byr / dim rybudd; Nod y BBC yw rhoi cymaint o rybudd i bawb sy'n

weithredol bosibl pan fo angen i amseroedd gwaith neu ddiwrnodau gwaith gael eu newid a, lle bo amserlenni'n berthnasol, fel arfer bydd y gweithiwr yn cael gwybod am unrhyw ddyddiau neu oriau disgwylidig o leiaf 7 diwrnod ymlaen llaw. Nid yw hyn wedi'i warantu ac efallai y bydd yn newid.

6. Lwfansau etifeddiaeth

Nid yw'r hawl hwn yn berthnasol i weithwyr y mae eu cyflogaeth gyda'r BBC yn dechrau ar neu ar ôl 1 Awst 2018 waeth a oes ganddynt unrhyw wasanaeth blaenorol gan y BBC, neu unrhyw weithiwr nad ydyn nhw eisoes yn derbyn y lwfans.

Bydd gweithwyr sy'n derbyn Lwfans Hyblygrwydd Etifeddiaeth, Lwfans Anrhagweladwy Etifeddiaeth Lefel 1 neu Lwfans Anrhagweladwy Etifeddiaeth Lefel 2 yn parhau i dderbyn y lwfans fel lwfans etifeddiaeth wedi'i rewi'n bersonol yn seiliedig ar eu sefyllfa sylweddol hy lle mae gweithiwr sy'n derbyn lwfans etifeddiaeth wedi cael gwared â hyn tra ar atodiad, ar ôl dychwelyd i'w rôl sylweddol, bydd y lwfans yn cael ei adfer yn ôl y gyfradd wedi'i rewi.

Bydd cyfrifiad y lwfans etifeddol yn cael ei gymhwyso pro rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser, a bydd yn cynyddu / gostwng pro rata gydag unrhyw newidiadau i oriau cytundebol. Dim ond mewn perthynas â newidiadau i oriau contract a bydd cyfrifiad y lwfans yn cael ei ddiwygio.

- 6.1 Am gyfnod interim hyd nes y bydd y Polisi Rheoli Patrymau Gwaith wedi'i weithredu trwy ddefnyddio Adolygu Telerau ac Amodau, bydd gweithwyr sy'n derbyn Lwfans Hyblygrwydd Etifeddiaeth neu Lwfans Anrhagweladwy Legacyan (UPA 1 neu 2) bydd y telerau canlynol yn berthnasol:

Etifeddiaeth Lwfans Hyblygrwydd – mae natur y rôl yn galw am gryn hyblygrwydd. Bydd y diwrnodau a / neu oriau y mae'n ofynnol eu gweithio yn amrywio, gan amlaf, yn ôl anghenion y swydd a / neu byddant yn agored i newidiadau ar fyr rybudd / heb rybudd. Nod y BBC yw rhoi cymaint o rybudd ag sy'n weithredol bosibl i bawb pan fydd angen newid mewn oriau neu ddiwrnodau gwaith a gynlluniwyd ac, os oes amserlen ar waith, bydd y cyflogai fel arfer yn cael ei hysbysu am neu'n gallu canfod unrhyw oriau neu ddiwrnodau gwaith disgwylidig o leiaf saith niwrnod ymlaen llaw.

Etifeddiaeth Lwfans Anrhagweladwyedd Lefel 1 – nid yw 'diwrnodau' neu 'oriau' y ddyletswydd sylfaenol yn dilyn patrwm penodedig, a gall y ddau neu'r naill neu'r llall amrywio mewn ymateb i anghenion gweithredol; gwneir newidiadau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion gweithredol gan roi cymaint o rybudd â phosibl ac fel arfer bydd staff yn cael eu hysbysu am neu'n gallu canfod eu cyfnodau dyletswydd disgwylidig o leiaf 14 diwrnod ymlaen llaw (oni chytunir fel arall yn lleol).

Etifeddiaeth Lwfans Anrhagweladwyedd Lefel 2 – ni ellir casglu beth yw'r diwrnodau na'r oriau gwaith o unrhyw batrwm rhagweladwy, gan eu bod ynghlwm wrth anghenion gweithredol; bydd angen yn aml i staff ymateb yn hyblyg i amgylchiadau anrhagweladwy; a bydd unrhyw ddyletswyddau a bennwyd ymlaen llaw yn agored i'w newid wedyn heb fawr o rybudd. Fel arfer bydd staff yn cael eu hysbysu am neu'n gallu canfod unrhyw ddiwrnodau neu oriau disgwylidig sy'n dilyn amserlen o leiaf 7 diwrnod ymlaen llaw, oni chytunir fel arall yn lleol.

(i) Ar gyfer gweithwyr sy'n derbyn Lwfans Hyblygrwydd Etifeddiaeth, bydd o leiaf 4 diwrnod gwarchoddedig yn cael eu henwebu ym mhob cyfnod cyfrifo 4 wythnos. Lle bo modd yn ymarferol, bydd y rhain yn cael eu trefnu mewn parau neu gyda diwrnodau di-ddyletswydd eraill ond ni warantir hyn.

(ii) Bydd gweithwyr sy'n derbyn Lwfans Anrhagweladwy Etifeddiaeth Lefel 1, 8 yn cael eu henwebu ym mhob cyfnod cyfrifo 4 wythnos. Cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl, bydd gweithwyr yn cael pedwar pâr o ddiwrnodau olynol i ffwrdd ym mhob cyfnod cyfrifo 4 wythnos. Fel arfer, dylid darparu dau ddiwrnod gwarchoddedig yn olynol ym mhob cyfnod o 14 diwrnod, fel na fydd yn ofynnol i weithwyr cyn belled â phosibl weithio mwy na 12 diwrnod yn olynol heb seibiant.

(iii) I weithwyr sy'n derbyn Lwfans Anrhagweladwy Etifeddiaeth Lefel 2, bydd 4 diwrnod di-ddyletswydd a ddiogelir yn cael eu henwebu neu eu darparu ym mhob cyfnod cyfrifo 4 wythnos (pro rata ar gyfer cyfnodau cyfrifyddu eraill). Bydd y dyddiau hyn yn cael eu trefnu, cyn belled ag y bo modd, mewn parau neu â diwrnodau eraill ar ddyletswydd.

7. Amser i Ffwrdd a Diwrnodau i Ffwrdd a Ddiogelir

- 7.1 Yn amodol ar yr anghenion ymarferol am ddarparu gwasanaeth 24 awr sy'n ymateb i ddigwyddiadau, mae'r BBC yn cydnabod bod angen i'r holl staff gael digon o amser i ffwrdd er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng gofynion gwaith a bywyd y cartref.
- 7.2 Er mwyn helpu i sicrhau'r cydbwysedd hwn, darperir diwrnodau i ffwrdd a ddiogelir ym mhob cyfnod cyfrifyddu. Mae hyn yn golygu y bydd staff yn edrych ar ddiwrnodau i ffwrdd a ddiffiniwyd fel hyn fel rhai sydd ar gael iddynt. Bydd gweithio ar ddiwrnod o'r fath yn wirfoddol boed drwy gyflawni dyletswydd sylfaenol ar amser gwahanol neu drwy weithio cyfnod dyletswydd ychwanegol.
- 7.3 Mae'r darpariaethau canlynol yn gymwys i ddiwrnodau i ffwrdd a ddiogelir:
- (vi) Gwneir pob ymdrech i roi'r nifer priodol o ddiwrnodau i ffwrdd i staff ac i ddarparu'r rhain hyd y gellir yn grwpiau o ddau ddiwrnod i ffwrdd yn olynol o leiaf ar gyfnodau rhesymol oddi wrth ei gilydd ym mhob cyfnod cyfrifyddu, gan ystyried amllder a natur y galwadau gan y gwasanaeth a gweithrediadau y mae'n rhaid eu hateb.
 - (vii) Gall cyflogeion ddisgwyl cael 8 niwrnod i ffwrdd dros gyfnod cyfrifyddu o 4 wythnos. Yn achos cyflogeion nad ydynt yn gweithio yn ôl patrymau gwaith penodedig, gall y cyflogai ddisgwyl cael pennu 4 diwrnod yn ddiwrnodau i ffwrdd a ddiogelir. Os bydd hyn yn weithredol bosibl, amserlennir y rhain yn barau neu gyda diwrnodau eraill heb ddyletswydd ond nid yw hyn wedi'i warantu.
- 7.4 Bydd diwrnodau i ffwrdd a ddiogelir yn cael eu penderfynu mor gynnar ymlaen llaw ag y mae amgylchiadau gweithredol yn caniatáu. Mae'r trefniadau manwl ar gyfer hyn yn fater i'w gytuno'n lleol.
- 7.5 Os bydd yn ofynnol i gyflogeion weithio i ffwrdd o'r safle ar aseiniadau estynedig am nifer o wythnosau neu'n hirach, mae'n bosibl y bydd angen dyrannu diwrnodau i ffwrdd a ddiogelir o fewn y cyfnod hwn heb iddi fod yn bosibl dychwelyd adref. Os bydd hyn yn digwydd, gwneir pob ymdrech i roi diwrnodau i ffwrdd eraill sydd mor agos â phosibl at ddechrau neu ddiwedd aseiniadau o'r fath. Gellir cytuno ar drefniadau arbennig yn lleol hefyd ar gyfer aseiniadau penodol.

- 6.6 Ni fydd hawl gan gyflogeion sy'n dod o dan drefniadau 'hollgynhwysol' i gael y darpariaethau uchod ar gyfer diwrnodau i ffwrdd a ddiogelir, ond bydd ganddynt hawl i gael o leiaf un o'r cyfnodau gorffwys wythnosol a ganlyn:
 - (iv) cyfnod gorffwys di-dor o ddim llai na 24 awr ym mhob cyfnod o saith niwrnod; neu
 - (v) dau gyfnod gorffwys di-dor, na fydd yr un ohonynt yn llai na 24 awr ym mhob cyfnod o 14 diwrnod y maent yn gweithio; neu
 - (vi) un cyfnod gorffwys di-dor o ddim llai na 48 awr ym mhob cyfnod 14 diwrnod o'r fath.

8. Amrywio rhwng Is-adrannau a Threfniadau Unigol

- 7.1 Gellir cytuno ar drefniadau is-adrannol a lleol ar gyfer amserlennu, cyfnodau gorffwys a chymryd gwyliau a chaiff is-adrannau lunio canllawiau ar amserlennu fel y bo'n briodol. Fodd bynnag, rhaid peidio ag amrywio'r taliadau a rheolau sydd yn y polisi hwn nac mewn polisiâu cysylltiedig e.e. Polisi Gwyliau'r BBC.
- 7.2 Gellir cytuno ar drefniadau lleol hefyd i gwrdd â'r anghenion neilltuol mewn aseiniadau penodol e.e. aseiniadau mewn gwledydd tramor.

9. Trefniadau Hollgynhwysol

- 9.1 Os gwneir trefniant sy'n darparu ar gyfer pecynnau hollgynhwysol i staff (e.e. cyfraddau dyddiol/wythnosol am swyddi penodol, pecynnau ar gyfer aseiniadau hirach, contractau blynyddol etc.) rhaid iddo:
 - (vi) Bod wedi'i seilio ar berthynas gytundebol briodol;
 - (vii) Bod wedi'i seilio ar ddull cyson o weithredu a bod â chysylltiad clir ag anghenion busnes;
 - (viii) Darparu ar gyfer cymryd gwyliau blynyddol mewn amgylchiadau lle bydd y contract yn hirach na 3 mis;
 - (ix) Cydymffurfio â'r darpariaethau yn *Guide to the Working Time Regulations*;
 - (x) Peidio â pheryglu iechyd a diogelwch y cyflogai.

10. Gweithio'r Nos

- 10.1 Gellir cyfrif cyflogai yn weithiwr nos os bydd yn gweithio'n rheolaidd am 3 awr o leiaf rhwng 23:00 a 06:00.
- 10.2 Rhaid i oriau gwaith arferol y gweithiwr nos beidio â bod yn fwy na chyfartaledd o 8 ym mhob cyfnod o 24 awr, lle cyfrifir y cyfartaledd dros gyfnod cyfeirio o 17 wythnos.
- 10.3 Darperir ar gyfer seibiant rhesymol rhwng cyfnodau dyletswydd ac yn unol â *Guide to the Working Time Regulations* lle bo'n weithredol bosibl. Yn ogystal â hyn, os bydd cyflogeion yn gweithio cyfres o nosweithiau llawn, a'r diffiniad o gyfres o nosweithiau llawn yn 3 neu ragor o sifftiau nos olynol, dylid rhoi o leiaf 35 awr o orffwys i staff ar ddiwedd y gyfres o nosweithiau llawn cyn dechrau eu sifft nesaf.
- 10.4 Mae asesiadau iechyd (a gynhelir gan Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol y BBC) ar gael i'r rheini y bydd eu patrwm gwaith yn peri neu'n debygol o beri iddynt gael eu hystyried yn

weithwyr nos, cyn dechrau'r amserlen honno. Mae hawl gan y rheini a ystyrir yn weithwyr nos i gael asesiadau iechyd pellach yn rheolaidd, yn flynyddol fel arfer. I gael rhagor o wybodaeth am asesiadau iechyd, gweler *Guide to BBC Night Work Health Assessments*.

- 10.5 Mae gwybodaeth am daliadau am weithio'r nos ar gael ar Gateway, gwefan y BBC ar y fewnwyd.

11. Oriau Gwaith a Theithio

- 11.1 Nid yw amser teithio rhwng y cartref a'r safle yn cael ei gyfrif yn oriau gwaith.
- 11.2 Pan fydd gweithwyr yn gweithio mewn lleoliad yn y DU heblaw eu safle arferol, bydd amser teithio rhwng y safle a'r lleoliad yn cael ei gyfrif yn oriau gwaith. Pan fydd gweithwyr yn gweithio mewn lleoliad yn y DU heblaw eu safle arferol ac yn teithio i'r lleoliad hwnnw'n uniongyrchol o'u cartref, bydd amser teithio sy'n fwy nag amser y daith arferol rhwng y cartref a'r safle yn cael ei gyfrif yn oriau gwaith.
- 11.3 Bydd hyn yn gymwys hefyd pan fydd yn ofynnol i weithiwr ddilyn hyfforddiant yn y DU sy'n uniongyrchol berthnasol i'w rôl.
- 11.4 Mae'r ffordd o fesur amser teithio i leoliadau tramor ac yn ôl yn fater i'w drafod o fewn is-adrannau yn yr un modd ag amser teithio ar ôl cyrraedd lleoliad tramor.

12. Cofnodi Oriau

- 12.1 Mae'n ofynnol o dan y Rheoliadau Oriau Gwaith fod y BBC yn cofnodi oriau gwaith cyflogeion mewn amgylchiadau penodol.
- 12.2 **Optio Allan gan yr Unigolyn**
Os yw'r BBC wedi cytuno â chyflogai y gall y cyfyngiad ar oriau gwaith cyfartalog y cyflogai, gan gynnwys goramser, fod yn fwy na 48 awr, ym mhob cyfnod o saith diwrnod, rhaid cadw'r cofnodion canlynol:
- enwau'r holl gyflogeion sydd wedi cytuno na fydd y cyfyngiad yn gymwys;
 - unrhyw delerau lle na fydd y cyfyngiad yn gymwys;
 - nifer yr oriau a weithiwyd bob wythnos.
- 12.3 **Gofynion Cyffredinol**
- 11.3.1 Mae angen cadw cofnodion i ddangos bod y gofynion sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau:
- ar oriau gwaith cyfartalog o 48 awr ym mhob cyfnod o saith diwrnod;
 - ar waith nos;
 - ar asesiadau iechyd sy'n ymwneud â gwaith nos yn cael eu bodloni.
- 11.3.2 Felly mae angen cofnodi oriau gwaith y cyflogeion yn y categorïau canlynol:
- Yr holl gyflogeion sydd wedi'u dynodi'n weithwyr nos, pa un a ydynt yn dod o dan ddarpariaethau achos arbennig neu beidio.
 - Yr holl gyflogeion sy'n gweithio'n rheolaidd ar sail patrwm gwaith sy'n golygu neu'n debygol o olygu gweithio 48 awr neu fwy mewn wythnos.
 - Cyflogeion newydd lle mae'n bosibl y bydd yr unigolyn yn gweithio mwy na 48 awr yr wythnos yn 17 wythnos gyntaf ei gyflogaeth.
 - Cyflogeion sy'n gosod eu hamserlen eu hunain sy'n gweithio neu sy'n debygol o weithio mwy na 48 awr yn rheolaidd mewn cyfnod o saith diwrnod.
- 11.3.3 Nid oes gofyniad i gofnodi oriau cyflogeion sy'n gweithio wythnos waith sylfaenol gyda nifer bach o oriau ychwanegol. Bydd manylion yr holl gyflogeion yn cael eu dal yn y

system ond bydd oriau gwaith y cyflogeion sydd fel arfer yn gweithio'r wythnos waith sylfaenol heb ddim neu nemor ddim oriau ychwanegol yn cael eu gosod ar lefel ragosodedig eu horiau gwaith sylfaenol.

- 11.3.4 Fodd bynnag, os yw cyflogai'n gweithio oriau sy'n fwy o lawer na'i oriau rheolaidd (e.e. 9.30 a.m. - 5.30 p.m. dydd Llun i ddydd Gwener) mae'n ofynnol iddo hysbysu ei reolwr am hyn. Mater i'w benderfynu gan y rheolwr yw a fydd oriau wythnosol y cyflogai'n cael eu cofnodi i sicrhau nad yw ei oriau gwaith yn fwy na'r cyfyngiad ar oriau cyfartalog wythnosol. Ni fydd cymell cyflogeion i roi gwybod a yw eu horiau gwaith yn fwy o lawer na'u horiau sylfaenol yn rhyddhau rheolwyr o'r rhwymedigaeth i sicrhau cydymffurfio â'r Rheoliadau ac os bydd nifer yr oriau y mae unrhyw un o'u cyflogeion yn gweithio yn dod yn agos i'r terfyn wythnosol, dylent sicrhau bod yr oriau'n cael eu cofnodi.
- 11.3.5 Mae angen y cofnodion i ddibenion lechyd a Diogelwch a gall swyddogion yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch fynnu bod y BBC yn darparu tystiolaeth o'r oriau a weithiwyd. Rhaid cadw'r cofnodion am ddwy flynedd o'r dyddiad y cawsant eu llunio.